**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Siopau Bach: Sesiwn friffio ShopKind**

**Dydd Mercher 16 Mawrth 2022, 12:30 – 13:30: Zoom (ar-lein)**

**COFNODION**

**YN BRESENNOL:**

| Enw cyntaf | Cyfenw | Sefydliad |
|---|---|---|
| Vikki | Howells | AS Cwm Cynon |
| Russell | George | AS Sir Drefaldwyn |
| Steve | Dowling | Cymdeithas Siopau Cyfleustra |
| Willem | Van de Ven | Cymdeithas Siopau Cyfleustra |
| Ed | Woodall | Cymdeithas Siopau Cyfleustra |
| Howard | Davies | Cymdeithas y Llyfrwerthwyr |
| Mark | Coray | Pencampwr Trin Gwallt Prydain |
| Jonathan | Mail | Charity Retail Association |
| Matthew | Hunt | Filco Supermarkets |
| Zahra | Khan | Longhours |
| Adrian | Roper | Ffederasiwn Cenedlaethol Manwerthwyr Papurau Newydd |
| Sophy | Walker | Ffederasiwn Cenedlaethol Manwerthwyr Papurau Newydd |
| Keith | Richards | Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri |
| Sue | Jude | Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri |
| Andy | Dunbobbin | Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| Vince | Malone | Premier Express Dinbych-y-pysgod |
| Nick | Ireland | Usdaw |

1. **Croeso a chyflwyniadau**

Agorodd Vikki Howells AS y cyfarfod drwy groesawu pawb a oedd yn bresennol. Amlinellodd yr agenda ar gyfer y cyfarfod cyn gwahodd Ed Woodall i roi'r cyflwyniad cyntaf.

2. **Ymgyrch ShopKind**

Cyflwynodd Ed Woodall y canfyddiadau allweddol o Adroddiad Troseddu y Gymdeithas Siopau Cyfleustra. Mae manwerthwyr cyfleustra yn buddsoddi £246 miliwn, sef y swm uchaf erioed, mewn atal troseddu, sy'n cyfateb i dros £5,000 fesul siop. Mae'r buddsoddiad wedi'i dargedu at fynd i'r afael â'r 970,000 o achosion o ddwyn, yr 800,000 o achosion o gam-drin geiriol a’r dros 9,000 o ladradau a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae cost troseddau a buddsoddi mewn ymateb i droseddau yn arwain at 'dreth trosedd' o 9c ar bob trafodiad a wneir mewn siopau.

Mae cynnydd wedi'i wneud ar godi proffil troseddau yn erbyn siopau lleol. Disgwylir i’r Bil Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a’r Llysoedd gyflwyno trosedd waethygedig newydd mewn perthynas ag ymosodiadau ar bobl sy’n gwasanaethu’r cyhoedd; mae 37 o’r 42 o Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu presennol bellach yn cyfeirio at droseddau busnes fel rhan o’u cynlluniau lleol; ac mae’r ymgyrch ShopKind, a ariennir gan y Swyddfa Gartref, wedi cyrraedd miloedd o fusnesau yn y sector manwerthu, gan atgoffa’r cyhoedd o’r angen i fod yn garedig i weithwyr yn y maes hwn.

Cadarnhaodd Ed y bydd sgriniau Perspex yn parhau i fod yn boblogaidd y tu hwnt i’r pandemig COVID-19 oherwydd y canfyddiad eu bod yn helpu cydweithwyr i deimlo'n ddiogel. Mae’r Gymdeithas Siopau Cyfleustra yn annog siopau bach i roi gwybod am droseddau bob tro, gan mai dim ond 38 y cant o droseddau sy’n cael eu nodi ar hyn o bryd oherwydd ymatebion anfoddhaol yr heddlu i ddigwyddiadau yn y gorffennol.

Tynnodd Ed sylw at y ffaith bod ymgyrch ShopKind bellach yn cael ei chefnogi gan dros 130 o sefydliadau, ond mae'n chwilio am fwy o gefnogaeth gan bartneriaid yn y Senedd i rannu adnoddau ar y cyfryngau cymdeithasol i ledaenu neges yr ymgyrch ymhlith etholwyr. **CYTUNWYD** y bydd y Gymdeithas Siopau Cyfleustra yn anfon pecyn cyfathrebu at Aelodau o'r Senedd ar ôl y cyfarfod.

3. **Cynllun Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru** -

Cafwyd rhagor o wybodaeth gan Andy Dunbobbin, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, am y blaenoriaethau yn ei Gynllun Heddlu a Throseddu. Dechreuodd drwy amlinellu ei gefndir mewn manwerthu cyn croesawu Adroddiad Troseddu y Gymdeithas Siopau Cyfleustra ar gyfer 2022 fel ased gwerthfawr. Roedd Andy yn cydnabod y problemau y mae'r adroddiad yn eu nodi, gan eu defnyddio i ddangos sut y byddai manwerthwyr yn elwa o wasanaeth heddlu amlycach.

Nid yw trais yn erbyn gweithwyr mewn siopau wedi'i gynnwys fel pwynt penodol yng Nghynllun Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, ond dywedodd Andy fod y mater hwn yn berthnasol i'r flaenoriaeth o wella ansawdd bywyd a gwasanaethu cymunedau. Mae trais yn erbyn gweithwyr mewn siopau yn aml yn gysylltiedig â gwerthu cyffuriau a thalu am ddibyniaeth ar gyffuriau cyffredin, ac mae'r troseddau hyn yn effeithio'n anghymesur ar fenywod, gan adlewyrchu cyfansoddiad gweithluoedd siopau bach. Blaenoriaeth Andy o ran dioddefwyr yw ymdrin â'r ffactorau sy'n achosi troseddau a chryfhau gwasanaethau adsefydlu troseddwyr.

Gofynnodd Vikki Howells a oes unrhyw bartneriaethau lleol y gall busnesau gymryd rhan ynddynt. Tynnodd Andy sylw at yr ymgysylltiad ag ysgolion a'r ganolfan gwydnwch seiber. Mynegodd Vince Malone bryderon y bydd costau byw cynyddol yn cynyddu achosion o ladrad o siopau gan bobl sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi, ac fe gydnabuwyd hyn gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

4. **Sesiwn Banel**

Cyflwynodd Vikki Howells y panel: Nick Ireland, Ysgrifennydd Rhanbarthol Usdaw; a Matthew Hunt, Cyfarwyddwr, Filco Supermarkets. Dechreuodd Matthew drwy groesawu'r sylwadau gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Aelodau o'r Senedd a oedd yn bresennol ynghylch y bwriad i symud tuag at gamau ymarferol a all atal troseddau manwerthu a gwella ymatebion i ddigwyddiadau.

Holwyd y panel ynghylch cyfraddau aildroseddu. Dywedodd Matthew mai un broblem sy'n codi'n rhy aml yw bod y bobl sy'n cam-drin gweithwyr mewn siopau ddim yn wynebu unrhyw gosb - yn enwedig ar gyfer cam-drin geiriol - sydd wedyn yn eu hannog i barhau i ymddwyn yn y modd hwnnw. Gall hyn waethygu eu hymddygiad yn y dyfodol hefyd. Gallai plismona yn y gymdogaeth a phresenoldeb amlwg gan yr heddlu yn yr ardal leol gael effaith sylweddol ar atal yr ymddygiad hwn. Tynnodd Nick sylw at y ffaith bod cosbi ymddygiad o'r fath yn un o'r prif alwadau a wneir yn ymgyrch 'Rhyddid Rhag Ofn' Usdaw.

Gofynnodd Vikki i'r panel pa fesurau sy'n effeithiol wrth geisio lleihau effaith troseddau manwerthu. Cytunodd y panel fod cael nifer o gydweithwyr yn bresennol yn ddefnyddiol, ond bod hyn yn llai dichonol mewn siopau bach. Mae manwerthwyr yn ymchwilio i dechnolegau newydd, gan gynnwys defnyddio deallusrwydd artiffisial mewn systemau teledu cylch cyfyng i ddysgu ymddygiad, ond nid oes llawer mwy y gellir ei wneud i atal lladrad.

Pwysleisiodd Ed Woodall fod y Gymdeithas Siopau Cyfleustra yn annog manwerthwyr i roi gwybod i'r heddlu am ddigwyddiadau fel mater o arfer i ddarparu'r data sydd eu hangen i gynyddu'r sylw a roddir i droseddau manwerthu gan yr heddlu wrth neilltuo adnoddau. Gall meithrin perthnasoedd cryfach rhwng manwerthwyr a'r heddlu cymunedol hwyluso'r broses adrodd.

Nododd Vince Malone y gall bod yn dyst i wrthdaro mewn siop yn ystod digwyddiadau troseddol atal pobl ifanc rhag gweithio ym maes manwerthu. Cytunodd Nick Ireland fod hyn yn broblem. Fodd bynnag, ar nodyn cadarnhaol, mae nifer y cydweithwyr sy'n gorfod gofyn am gymorth gan reolwyr wedi gostwng, sy'n awgrymu bod cymorth yn cael ei gynnig mewn ffordd ragweithiol.

Rhoddodd Vikki y crynodeb a ganlyn o sylwadau'r panel: oherwydd effaith negyddol troseddau manwerthu, mae'n fater y mae'n rhaid i heddluoedd ledled Cymru ei gymryd o ddifrif. Dylai siopau bach roi gwybod am ddigwyddiadau perthnasol cymaint â phosibl. Mae gan ymgyrch ShopKind neges gadarnhaol i'w rhannu a gall ASau roi gwybod i'w hetholwyr amdani.

## 5. Sylwadau'r Cadeirydd i gloi

Diolchodd Vikki Howells AS i'r panelwyr, y cyfranwyr a phawb a oedd yn bresennol am gymryd rhan, cyn dod â'r cyfarfod i ben.